# Gweithdrefn Terfynu Astudiaethau

Gweithdrefn 06: 2024 Fersiwn 1
Daw i rym: 08 Hydref 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 8 Hydref 2024 | 2018 Fersiwn 2.3 | Mân newidiadau i deitlau swyddi<br>Egluro canlyniadau apeliadau. |
| 1 Chwefror 2021 | 2018 Fersiwn 2.2 | Mân newidiadau i derfynau amser. |
| 1 Tachwedd 2019 | 2018 Fersiwn 02 | Mân newidiadau i eiriad. |
| 1 Hydref 2018 | Fersiwn 2015 | Diweddariad cyffredinol. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 08 Hydref 2024 | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i ysgolion, penaethiaid ysgol, swyddogion ysgol neu bwyllgorau ysgol yn y Cod Ymarfer hwn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Gweithdrefn Terfynu Astudiaethau

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Rhagarweiniad

1. Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni hyfforddedig israddedig ac ôl-radd ac i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd. Nid yw’r weithdrefn hon yn berthnasol i'r canlynol:
    - Achosion disgyblu neu gamymddwyn academaidd. Rhaid ystyried achosion o’r fath yn unol â Gweithdrefn Disgyblu neu Weithdrefn Uniondeb Academaidd y Brifysgol.
    - Myfyrwyr sydd mewn dyled. Rhaid ystyried achosion o'r fath o dan Bolisi Ffioedd y Brifysgol.
    - Myfyrwyr y gall eu hastudiaethau gael eu terfynu gan Fyrddau Arholi yn unol â rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol.
    - Myfyrwyr y gall eu hastudiaethau gael eu gohirio neu eu terfynu oherwydd salwch.
    - Myfyrwyr y gellir terfynu eu hastudiaethau drwy weithdrefnau penodol a gymeradwywyd fel rhan o’r broses cymeradwyo/dilysu ar gyfer eu cwrs, gan gynnwys amodau a osodwyd gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
2. Pan fo hynny'n bosib ac yn berthnasol, rhaid rhoi cyfle i fyfyrwyr ohirio eu hastudiaethau neu dynnu’n ôl ohonynt yn wirfoddol cyn bwrw ymlaen â’r gweithdrefnau yn y drefn hon.

## Rhesymau dros derfynu astudiaethau

3. Mae sail dros derfynu astudiaethau myfyriwr yn cynnwys y canlynol:
    - Peidio, dros gyfnod sylweddol, â mynd i weithgareddau a amserlennwyd yn ffurfiol (fel yr ystyrir yn briodol gan yr ysgol berthnasol ar gyfer y rhaglen astudio) ac yn niffyg unrhyw amgylchiadau arbennig a gyflwynwyd neu ganiatâd ymlaen llaw i fod yn absennol o’r gweithgareddau hynny.
    - Peidio â chyflwyno elfennau sylweddol (fel yr ystyrir yn briodol gan yr ysgol berthnasol ar gyfer y rhaglen astudio) o waith cwrs neu beidio â bod yn bresennol mewn profion ac/neu arholiadau.
    - Yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-radd, peidio â chwblhau o fewn cyfnod penodol, raglen waith y cytunwyd arni er boddhad y Pwyllgor Goruchwylio.
    - Methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig mewn **rhai** lleoliadau proffesiynol neu yn **y cwbl** ohonynt. Gall y safonau gofynnol fod wedi eu diffinio gan y Brifysgol neu gallant fod yn safonau allanol sy’n berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol.

- Tystiolaeth o ymrwymiad annigonol i’w hastudiaethau yn y Brifysgol, er enghraifft, amharodrwydd parhaus i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, seminarau, tiwtorialau neu gyflwyniadau.
- Tystiolaeth fod y gwaith a gyflwynwyd i’w asesu yn is na’r safon trothwy’n gyson i’r fath raddau na all y myfyriwr osgoi methiant drwy ailasesu.
- Peidio â chyflawni gofynion penodol a nodwyd ar gyfer rhaglen astudio neilltuol gan y Brifysgol neu Sefydliad Partner, yr oedd myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt cyn cael eu derbyn ar y cwrs.

4. Rhaid i Ysgolion fod â gweithdrefnau wedi eu dogfennu i adnabod y myfyrwyr hynny y mae eu cynnydd yn achosi pryder, ac i gyfeirio myfyrwyr o’r fath i wasanaethau cefnogi perthnasol yn ganolog ac yn yr ysgol. Rhaid i Ysgolion hefyd sicrhau fod myfyrwyr yn cael cyfle i drafod eu cynnydd gyda thiwtor personol (neu aelod o staff cyfatebol) cyn i'w cynnydd gael ei ystyried yn ffurfiol fel y diffinnir ym mharagraff 5.
5. Rhaid i gynnydd myfyriwr gael ei ystyried yn y lle cyntaf gan bwyllgorau, neu is-bwyllgorau priodol, o fewn yr ysgol/ysgolion sy'n gyfrifol am raglen astudio'r myfyriwr. Rhaid i’r pwyllgorau hyn ystyried yn ofalus yr holl amgylchiadau arbennig, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y myfyriwr, ac unrhyw gamau y gellid eu cymryd i roi cymorth neu gyngor i’r myfyriwr. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol (neu ei enwebai) roi gwybod i’r myfyrwyr yn ysgrifenedig yr ystyrir bod eu cynnydd yn anfoddhaol, a rhaid rhoi cyfle i'r myfyrwyr wella eu perfformiad academaidd. Rhaid rhoi cyfnod penodol i wella i fyfyrwyr, a bydd eu cynnydd yn cael ei ailasesu ar ei ddiwedd. Bydd y cyfnod rhwng y rhybudd ysgrifenedig ac ail-werthuso perfformiad yn cael ei bennu gan yr ysgol, gan ystyried y gweithgareddau a’r asesiadau sydd wedi eu trefnu a natur y materion a arweiniodd at bryderon ynghylch cynnydd myfyriwr.
6. Pan fo cynnydd anfoddhaol myfyriwr yn effeithio ar y gallu i gwblhau lleoliad proffesiynol (yn cynnwys gwaith ymchwil a wnaed mewn lleoliad y tu allan i’r Brifysgol), gall yr ysgol dynnu'r myfyriwr o’r lleoliad tra bydd argymhelliad i derfynu astudiaethau’r myfyriwr yn cael ei ystyried.
7. Rhaid gwneud argymhelliad i derfynu astudiaethau myfyriwr dim ond pan fo'r canlynol yn berthnasol:
    - Mae pob ymgais gan yr ysgol/ysgolion i unioni'r sefyllfa wedi methu.
    - Mae'r myfyriwr wedi anwybyddu cyngor i ystyried gohirio astudiaethau neu dynnu'n ôl.
    - Mae'r myfyriwr wedi peidio â chydymffurfio ag amodau y cytunwyd arnynt ar y cyd i geisio cywiro'r problemau.
8. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol gyflwyno argymhelliad ysgrifenedig i derfynu astudiaethau myfyriwr, ynghyd â'r dystiolaeth i gefnogi hynny, i’r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr.
9. Rhaid i'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr ystyried, mewn trafodaeth â Phennaeth yr Ysgol lle bo angen, a fydd achos prima facie yn bodoli o dan y gweithdrefnau hyn o ran terfynu astudiaethau myfyriwr.
10. Os na ellir sefydlu achos prima facie, caniateir i’r myfyriwr barhau gyda'r astudiaethau.

11. Os sefydlir achos prima facie, bydd y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu enwebai) yn hysbysu’r myfyriwr ac yn bwrw ymlaen ag unrhyw gamau gofynnol gan gynnwys:
    - Ysgrifennu i roi gwybod i'r myfyriwr bod argymhelliad i derfynu astudiaethau wedi ei dderbyn ac y gelwir Panel Ymchwilio ynghyd i ystyried yr argymhelliad. Yn y cyfamser, cynghorir y myfyriwr i barhau gydag astudiaethau am weddill y tymor neu'r semester, p’run bynnag sydd gyntaf.
    - Cynghorir y myfyriwr i barhau gydag elfennau eraill o waith asesu neu ymchwil am weddill y tymor neu'r semester, p'run bynnag sydd gyntaf pan fo myfyriwr wedi ei dynnu o leoliad, fel y nodir ym mharagraff6.
    - Trefnu cyfarfod o’r Panel. Dylid pennu dyddiad y Panel fel rheol heb fod yn ddiweddarach nag 20 diwrnod gwaith, pan fo hynny’n ymarferol bosibl, ar ôl cyfeirio’r achos i gael ei ystyried gan y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr.
    - Rhoi gwybod i'r myfyriwr am ddyddiad y Panel, gan sicrhau bod y myfyriwr yn cael o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd, pan fo hynny’n ymarferol bosibl, o’r dyddiad y bydd y Panel yn cyfarfod, oni bai y gellir trefnu dyddiad cynharach mewn cytundeb gyda'r myfyriwr.
    - Rhaid cynnull Panelau ac ni ddylai ystyried yr achos ar sail cyfathrebu electronig yn unig.

**Panel Ymchwilio**

12. Rhaid i'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai gadeirio'r Panel Ymchwilio. Bydd aelodau’r Panel hefyd yn cynnwys:
    - Aelod allanol i'w gymeradwyo gan y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu enwebai.
    - Dau aelod o’r staff academaidd, rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn aelod o’r Senedd, a’r naill na’r llall ohonynt o’r ysgol sydd â chyfrifoldeb dros raglen astudio'r myfyriwr.
    - Cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr
    - Y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu enwebai) fel Ysgrifennydd i’r Panel.
13. Bydd y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr (neu enwebai) yn gyfrifol am gasglu a chrynhoi tystiolaeth ar gyfer aelodau'r Panel. Rhaid i'r myfyriwr dderbyn copi o’r dogfennau a gyflwynir i aelodau’r Panel, a rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr am ei hawl i fod â rhywun yn gwmni yn y Panel Ymchwilio fel y nodir ym mharagraff 15.
14. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol (neu ei enwebai) sydd â chyfrifoldeb dros raglen astudio'r myfyriwr, gyflwyno'r achos dros derfynu astudiaethau myfyriwr i’r Panel Ymchwilio.
15. Gall myfyriwr ddod â rhywun gydag ef/hi i'r Panel Ymchwilio, er enghraifft ffrind, tiwtor personol, cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw un a gyflogir gan y Brifysgol. Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod i'r Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr o fewn 5 diwrnod gwaith llawn i dderbyn rhybudd o ddyddiad y cyfarfod os ydynt yn dymuno cael cynrychiolydd cyfreithiol gyda nhw.
16. Rhaid cynnal y Panel Ymchwilio fel a ganlyn fel rheol, oni bai y nodir yn wahanol oherwydd rhesymau penodol a chyda cytundeb pawb fydd yn rhan ohono.

**Mewn sesiwn gaeedig**

- Bydd aelodau’r Panel yn adolygu prif elfennau’r achos fel y caiff ei grynhoi gan y Cadeirydd.
- Bydd y Cadeirydd yn cytuno ar fformat gwrandawiad y Panel.

**Mewn sesiwn agored gyda phob un o'r cyfranogwyr**

- Bydd y Cadeirydd yn egluro cylch gwaith y Panel, trefn y gwrandawiad a'r penderfyniadau y mae ganddo’r grym i’w gwneud.
- Bydd Pennaeth yr Ysgol yn cyflwyno’r achos dros derfynu astudiaethau’r myfyriwr a gall alw tystion fel bo'r angen.
- Bydd y myfyriwr (neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd) yn cael cyfle i herio unrhyw ddatganiad neu ffaith yng nghyflwyniad Pennaeth yr Ysgol.
- Bydd y myfyriwr (neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd) yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw wybodaeth sy’n berthnasol i’r achos, a chaiff alw tystion.
- Caiff aelodau’r Panel gyfle i holi'r myfyriwr, Pennaeth yr Ysgol ac unrhyw dystion.
- Bydd Pennaeth yr Ysgol yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu sylwadau i gloi.
- Bydd y myfyriwr (neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd) yn cael cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol a/neu sylwadau gloi.
- Rhoddir gwybod i’r myfyriwr y bydd penderfyniad y Panel yn cael ei gyfleu yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd.

**Mewn sesiwn gaeedig**

- Bydd y Panel yn adolygu’r achos ac yn cymeradwyo un o'r penderfyniadau canlynol:

  (i) Ni fydd astudiaethau/ymchwil y myfyriwr yn cael eu terfynu ac y dylid caniatáu i’r myfyriwr barhau gyda’r rhaglen/project ymchwil, yn unol â’r amodau y cytunwyd arnynt gyda’r myfyriwr ac a amlinellwyd ym mhenderfyniad y Panel. Os bydd myfyriwr wedi ei dynnu’n ôl o leoliad neu safle lle cynhaliwyd ymchwil, fel y nodwyd ym mharagraff 6, rhaid i’r Panel ystyried a oes lleoliadau eraill, lleoliadau ar gyfer cynnal ymchwil, neu asesiadau gwahanol ar gael cyn cymeradwyo’r penderfyniad hwn.

  (ii) Bod y myfyriwr yn cael cyfle i ddewis gohirio astudiaethau yn unol â gweithdrefnau’r Brifysgol o ran gohirio astudiaethau. Mae'r penderfyniad hwn yn briodol mewn achosion sydd ag amgylchiadau lliniarol wedi effeithio ar bresenoldeb a/neu berfformiad y myfyriwr. Mae’r penderfyniad hwn yn briodol hefyd mewn achosion lle mae'r Panel o'r farn na chafodd y myfyriwr gyfle digonol, cyn y Panel Ymchwilio, i ddewis gohirio astudiaethau.

  (iii) Bydd astudiaethau'r myfyriwr yn cael eu terfynu gan y Panel (a all roi grym i'r Cadeirydd weithredu) ar adeg y cytunwyd arno yn y dyfodol, os

bydd cynnydd yn parhau i fod yn anfoddhaol ar sail canlyniadau'r holl fodiwlau a gwblhawyd o fewn yr amserlen honno. Mae'n rhaid i'r Panel hefyd fod yn ffyddiog y bydd digon o dystiolaeth o'r modiwlau i alluogi'r Cadeirydd i farnu a yw'r cynnydd yn parhau'n anfoddhaol ai peidio.

(iv) Bydd astudiaethau'r myfyriwr yn cael eu terfynu ar ddiwedd y tymor neu'r semester cyfredol, p'run bynnag sydd gyntaf.

(v) Bydd astudiaethau'r myfyriwr yn cael eu terfynu ar unwaith.

17. Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad ii, iv, neu v (fel y nodir ym mharagraff 16), rhaid gweithredu penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio neu derfynu astudiaethau fel y nodir ym mharagraff 18.

18. Rhaid i ysgrifennydd y Panel roi gwybod am benderfyniad y Panel yn ysgrifenedig i'r myfyriwr. Bydd y llythyr a anfonir at y myfyriwr hefyd yn cynnwys datganiadau sy'n briodol i benderfyniad y Panel fel a ganlyn:

(i) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad i, ii neu iii (fel y nodir ym mharagraff 16), bydd datganiad yn egluro nad yw penderfyniad y Panel, mewn unrhyw ffordd, yn gwarantu y bydd y myfyriwr yn llwyddo mewn asesiadau yn y dyfodol ac y bydd unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol o ran symud ymlaen a/neu ddosbarth gradd yn amodol ar benderfyniad gan Fwrdd Arholi neu bwyllgor a gynullir yn briodol fel y diffinnir hynny yn y rheoliad perthnasol.

(ii) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad ii, ceir datganiad fel y nodir ym mharagraff 18i a datganiad y gweithredir penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio astudiaethau. Yn unol â'r gweithdrefnau hyn, rhaid cynghori'r myfyriwr i gysylltu â swyddog penodedig, sef y Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr fel arfer, o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn penderfyniad y Panel, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, i ddewis gohirio astudiaethau'n ffurfiol. Os na fydd y myfyriwr yn cysylltu â'r swyddog penodedig o fewn 10 diwrnod gwaith, neu os bydd y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'r broses ar unrhyw adeg wedi hynny, cyfeirir y mater at Gadeirydd y Panel i gymeradwyo terfynu astudiaethau'r myfyriwr ar unwaith.

(iii) Mewn achosion lle mae'r Panel yn cymeradwyo penderfyniad iv neu v, ceir datganiad y gweithredir penderfyniad y Panel yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gohirio astudiaethau. Yn unol â'r gweithdrefnau hyn, caiff y myfyriwr ei gynghori i gysylltu â swyddog penodedig, sef y Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr fel arfer, o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn penderfyniad y Panel, pan fo hynny'n ymarferol bosibl, i ddewis rhoi'r gorau'n ffurfiol i'w hastudiaethau. Os na fydd y myfyriwr yn cysylltu â'r swyddog penodedig o fewn 10 diwrnod gwaith, bydd y swyddog penodedig yn cymryd camau gweithredol i derfynu astudiaethau'r myfyriwr.

19. Gall myfyrwyr apelio yn erbyn penderfyniad Panel Ymchwilio drwy ysgrifennu at apeliadau@bangor.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith, lle bo'n ymarferol bosibl, i dderbyn penderfyniad y Panel. Bydd yr Is-ganghellor neu enwebai yn adolygu'r

wybodaeth sydd ar gael ac yn ymateb i'r apêl, gan gadarnhau a yw'n cael ei chadarnhau ai peidio. Os caiff yr apêl ei chadarnhau, cynhelir un Panel Ymchwilio arall gyda gwahanol aelodau a bydd y penderfyniad hwnnw yn sefyll. Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, bydd penderfyniad y Panel Ymchwilio yn sefyll. Mae penderfyniad yr Is-ganghellor neu enwebai yn derfynol a gall myfyrwyr sy'n parhau yn anfodlon ar ôl apelio i'r Is-ganghellor gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yn www.oiahe.org.uk.

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os yw myfyriwr yn anfodlon â'r canlyniad a gawsant gan Brifysgol Bangor, efallai y gallant ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eu hachos. Cânt ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gallant a'r hyn na allant edrych arno a'r hyn y gallant ei wneud i unioni pethau yma: https://www.oiahe.org.uk/students.

Fel rheol rhaid i fyfyriwr fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl iddynt gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallant eu cymryd yn fewnol. Hyd yn oed os caiff cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol gallant ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunant. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gall myfyriwr ddisgwyl derbyn llythyr o'r fath, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.
I ddod â chwyn gerbron Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, mae angen i fyfyriwr lenwi Ffurflen Gwyno Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a'i chyflwyno cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn arferol), ac fel rheol bydd angen iddynt anfon y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.